GORNEST LYFRAU BLYNYDDOEDD 3-4
PECYN COFRESTRU

# BAROD? AR EICH MARCIAU, DARLLENWCH!

Ymunwch â chystadleuaeth ddarllen genedlaethol Cymru!

Amdani!



Dim ond 6 munud o ddarllen yw'r pecyn hwn!

Mae Gornest Lyfrau 2026 wedi cyrraedd!

# ‘Un o’r profiadau gorau erioed!’

CYSTADLEUYDD
GORNEST LYFRAU 2025



GORNEST LYFRAU 2026

# CROESO I'R ORNEST LYFRAU

Cystadleuaeth ddarllen genedlaethol i ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4 sy'n ennyn angerdd dros ddarllen ac yn dod â byd llyfrau yn fyw trwy heriau hwyliog a chreadigol.

GORNEST LYFRAU 2026

# SUT MAE'N GWEITHIO

## (mewn 4 cam hawdd!)

Cofrestru ar agor nawr ...

**CAM 1**
Cofrestrwch eich ysgol ar gyfer y rowndiau rhanbarthol.

Amser darllen!

**CAM 2**
Dewiswch lyfr i'w ddarllen o restr lyfrau'r Ornest.

Barod am sialens?

**CAM 3**
Cystadlu yn sialensau rhanbarthol yr Ornest.

y rowndiau cenedlaethol!

**CAM 4**
Os ydych yn ennill yn y rowndiau rhanbarthol, yna byddwch yn cystadlu yn y rowndiau cenedlaethol yn Aberystwyth.



# BAROD AMDANI?

**Mae'r ras i ddod yn bencampwyr Gornest Lyfrau 2026 wedi dechrau! Dim ond dwy sialens greadigol ranbarthol a phedair sialens genedlaethol epig sydd rhyngoch chi a thlws Gornest Lyfrau 2026!**



## CYSTADLU YNG NGORNEST LYFRAU 2026

Cystadleuaeth ddarllen genedlaethol yw'r Ornest Lyfrau sy'n llawn heriau creadigol a hwyliog i hybu llythrennedd, hyder a gwaith tîm disgyblion.


Mae dau gam: y rowndiau rhanbarthol, a gynhelir yn eich ystafell ddosbarth, a'r rownd derfynol genedlaethol a gynhelir yn Aberystwyth.

## Y ROWNDIAU RHANBARTHOL

Ar ôl cofrestru, bydd angen i chi ddewis llyfr i'w ddarllen o restr ddarllen yr Ornest Lyfrau. Trefnir cydlynydd a beirniad sirol ar eich cyfer hefyd.

Darllenwch y llyfr o'ch dewis fel dosbarth a pharatowch am ddwy sialens ranbarthol gyffrous.

**Sialens 1: Y rownd drafod**
Ffurfiwch dimau o bedwar a thrafodwch y llyfr gan gynnwys y cymeriadau, plot, themâu a mwy. Bydd beirniad sirol yn beirniadu eich sgwrs wrth ymweld â'ch ysgol neu ymuno â chi ar-lein.



**Sialens 2: Creu hysbyseb fideo**
Hyrwyddwch eich llyfr wrth greu hysbyseb fideo byr. Ffansi gwneud hysbyseb ddoniol, ddramatig neu annisgwyl? Ewch amdani! Bydd eich beirniad sirol yn edrych am hysbyseb sy'n tynnu sylw!

## Y ROWND DERFYNOL GENEDLAETHOL

Os yw eich tîm chi'n llwyddiannus yn y rowndiau rhanbarthol, yna daw gwahoddiad i rownd derfynol genedlaethol Gornest Lyfrau 2026 yn Aberystwyth. Dyma ddiwrnod llawn hwyl, gweithgareddau a sialensau ac, wrth gwrs, y cyfle i gael eich coroni'n bencampwyr Gornest Lyfrau 2026.

**Sialens 1: Yr ail rownd drafod**
**Sialens 2: Dylunio clawr llyfr**
**Sialens 3: Ysgrifennu broliant**
**Sialens 4: Dangosiad sinema o'ch hysbyseb fideo**

Bydd y sialensau cenedlaethol yn cael eu beirniadu gan feirniad cenedlaethol yr Ornest Lyfrau, a bydd timau cenedlaethol hefyd yn cymryd rhan mewn sesiwn arbennig gydag awdur.

# CANLYNIADAU DYSGU

**Eisiau gwybod mwy am fuddion cymryd rhan yn yr Ornest Lyfrau?**



**100%**

**Carnan o blant a ddywedodd eu bod wedi mwynhau'r Ornest Lyfrau.**

Eu dysgu i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain.

Eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnweledиad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru, yn ogystal â'r byd ehangach.

Datblygu eu gallu i ddangos empathi wrth ddeall credoau a diwylliannau eu hunain a phobl eraill.

Meithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

Cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau i unigolion a grwpiau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.


**Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd!**

# Y RHESTR DDARLLEN



**Dyma gipolwg ar restr ddarllen Gornest Lyfrau 2026 ...**

Bydd rhagor o wybodaeth am y llyfrau'n cael ei hanfon atoch wrth i chi gofrestru. Cofiwch y gallwch archebu copïau o'r llyfrau ar y rhestr o'ch siop lyfrau leol neu eu benthyg o'ch llyfrgell leol.




## Am Gymro!


**Medi Jones-Jackson**

Y Lolfa | 978-1-800996-95-3

Llyfr deniadol a llawn hwyl am 13 o dynion ysbrydoledig o Gymru.

**THEMÂU**

Unigolion dylanwadol, Cymru




## 20 o Bobl Liwgar Cymru


**Natalie Jones**

Y Lolfa | 978-1-800996-08-3

Llyfr deniadol a hwyliog am 20 o bobl ysbrydoledig o Gymru.

**THEMÂU**

Hil, unigolion dylanwadol, Cymru




## Amara


**Manon Steffan Ros**

Atebol | 978-1-801065-40-5

Merch swil yw Femi sy'n hoffi dawnsio a gwneud comics, ac mae cwrdd â ffrind newydd yn newid ei byd.

**THEMÂU**

Amrywiaeth, cyfeillgarwch




## Mira a'r Goeden


**Luned Aaron**

Atebol | 978-1-801064-25-5

Mae'r teulu yn mynd i wersylla. Ond sut fydd Mira yn ymdopi mewn pabell?

**THEMÂU**

Antur, awyr agored




## Ymlaen â Hi! Menywod Cymru ym Myd y Campau


**Elen Williams**

Gwasg Carreg Gwalch | 978-1-845279-85-1

Dathlu camp y menywod hynny sydd wedi ac yn dal i fynd amdani i'r eithaf.

**THEMÂU**

Chwaraeon, merched dylanwadol, Cymru




## Y Gwaith Cartref Coll

**Richard O'Neill**

Rily | 978-1-804164-08-2

Mae Sonny'n sylweddoli ei fod wedi colli ei lyfr gwaith cartref … ond mwy nag un ffordd o ddysgu.

**THEMÂU**

Antur, cymuned, perthyn

# DYDDIADAU PWYSIG

Angen rhagor o wybodaeth?
Cysylltwch â chydlynydd Gornest Lyfrau
drwy ebostio **plant@llyfrau.cymru**

## MEDI
Cofrestru ar agor.

## RHAGFYR 5
Cofrestru'n cau ar gyfer Gornest Lyfrau 2026.

## ION 1 – MAI 15
Rowndiau rhanbarthol yn digwydd ar draws Cymru.

## MEHEFIN 17
y rownd derfynol yn digwydd yn Aberystwyth.

# CHWE SIALENS, UN PENCAMPWR



Ai eich ysgol chi fydd pencampwyr Gornest Lyfrau 2026?

Cofrestrwch eich ysgol nawr.

**Cofrestru fy ysgol**

Chwilio am ragor o wybodaeth? Cysylltwch â chydlynydd ein Gornest Llyfrau:

**plant@llyfrau.cymru | 01970 624151**

# GORNEST LYFRAU 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Wedi'i drefnu a'i gydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru